**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**
**Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.**
**Teleffon: Botwnnog 730357**

**SYLWER AR Y DYDDIAD** 29ain Mawrth, 2023.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Nos Lun nesaf, 3ydd Ebrill, 2023 am 7.30 y.h. yn Neuadd Goffa, Sarn.

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

2. **YMDDIHEURIADAU**

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
I dderbyn gwybodaeth.

4. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 13eg MAWRTH, 2023**
Copi'n amgaeëdig. "A"
I drafod y materion a ganlyn yn codi o'r cofnodion.
(a) Eitem 108 Cadarnhau Cofnodion – cymal (c) Is-bwyllgor Cyllid a chymal (c) Cyfarfod o Bwyllgor Ardal Dwyfor o Un Llais Cymru
Cyfarfu'r is-bwyllgor ar 24ain Mawrth, 2023, ac amgaeeir:
gopi o'r pecyn wedi ei gwblhau. Copi'n amgaeedig. "B"
draft o adroddiad y Cyngor am 2022/23. Copi'n amgaeedig. "C"
draft o'r cynllun hyfforddi. Copi'n amgaeedig. "CH"
draft o adroddiad ar y dyletswydd biomamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau 2023. Copi'n amgaeedig. "D"
(b) Eitem 110 – Materion Ffyrdd a Llwybrau –
Ymateb Peiriannydd Rhanbarthol Ardal Dwyfor i faterion anfonwyd i'w sylw ym mis Chwefror a Mawrth.

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
I ystyried unrhyw gais a ddaw i law cyn noson y Cyngor.

6. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
(a) A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.
(b) Caia am arwydd newydd 'Bryncroes'.
(c) Rhaglen waith trafnidiaeth a phrifyrdd am fis Ebrill 2023 – twll ymchwil ger Garej Tegfan, Llangwnnadl.

7. **AWDURDOD I DALU**
I awdurdodi'r taliadau a ganlyn ac unrhyw daliad ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor.

| | |
|---|---|
| Archwilio Cymru – archwiliad 2019/20 | £200.00 |
| Arfon Parry (Cradur.com) – we-letya a chynhaliaeth 2023 | £ 44.00 |
| Un Llais Cymru (aelodaeth 2023-24) | £178.00 |
| Yswiriant Zurich | £838.34 |

8. **CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL**
I ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan:
Canolfan Gymdeithasol Bryncroes
Clwb Snwcer Sarn
Clwstwr Ysgolion Ysgol Botwnnog
Cronfa Goffa Will Pent Sun Inn
Cylch Meithrin Pont y Gof, Botwnnog
Theatr Bara Caws (yr atodiadau gennyf ac os ydych eisiau cael golwg gallaf eu he-bostio i chwi.
Ty Gobaith
Copiau o'r ceisiadau yn amgaeedig. "DD"

9. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**
I ystried gofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd, ymgymryd ag archwilio'r cyfrifon.

10. **COMIN BRYNCROES**
I ystyried yr angen i ofyn unwaith yn rhagor i Gwmni W.F. Clayton a ydynt am gyfrannu am gael defnydd o'r Comin tra'n gweithio ar y tai Cyngor.

11. **SWYDD Y CLARC A'R SWYDDFA**
I adolygu'r swydd ddigrifiad – copi o'r swydd ddisgrifiad a'r gytundeb gyfredol yn amgaeedig. "DD"
I ystyried archebu glinidur, swyddfa, creu e-bost a.y. (mae gan y Cyngor e-bost yn barod clerc@botwnnog.com ond ei fod yn treiddio'n ôl i e-bost y swyddfa bydd angen ei newid os bydd y cyfan yn mynd y liniadur newydd).

Yn gywir,

Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR**
**Y CYNGHORWYR**

| | | |
|---|---|---|
| Carys H. Evans | Elin Hughes | Gwenan Griffiths |
| Dylan Parry Jones | Glyn Roberts | Michael Strain |
| Efan Thomas | Carys E. Williams | Glenys Williams |
| Iwan J. Williams | Siôn Williams | |